# Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD STD 03-02(COFNODION DRAFFT)

Dyddiad: 10 Gorffennaf 2002, am 09.30am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Bae Caerdydd

Yn Bresennol:

*Aelodau*

David Melding, Canol De Cymru (Cadeirydd)
Cynog Dafis, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Hancock, Islwyn
Gareth Jones, Conwy
Karen Sinclair, De Clwyd
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

*Swyddogion*

Andrew George, Clerc y Pwyllgor
Steve George, Dirprwy Glerc y Pwyllgor
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd

*Eraill*

Richard Penn, Ymgynghorydd Annibynnol y Cynulliad ar Safonau
Yr Athro Diana Woodhouse, Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor

## Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a sylwadau agoriadol y Cadeirydd

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Christine Gwyther, Gwenda Thomas a Lynne Neagle.

3. Cadarnhaodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod ar 8 Mai 2002 yn gywir.

4. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod Papur STD 03-02(04) ar y trefniadau cyn yr etholiad, sef eitem 6 ar yr agenda, wedi'i dynnu'n ôl. Byddai David Lambert yn rhoi adroddiad ar lafar i'r Pwyllgor.

## Eitem 2: Adroddiad chwarterol ac adolygu'r camau'n deillio o STD 02-02

Papur STD-03-02(01)

5. Ar gais y Cadeirydd, cyflwynodd Clerc y Pwyllgor yr eitem a dywedodd bod yr holl gamau'n deillio o gyfarfod 8 Mai wedi'u cyflawni.

6. Nododd y Pwyllgor bapur yr Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 3: Y Seiri Rhyddion**

Papurau STD-03-02(02) prif bapur
STD-03-02(02) Atodiad B

7. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried papur STD-02-02(02) a'r atodiad gan yr Ysgrifenyddiaeth. Roedd y papur yn cynnwys adroddiad drafft diwygiedig y Pwyllgor i'r Cyfarfod Llawn a chanllawiau drafft diwygiedig i'r Aelodau.

8. Atgoffaodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi ystyried ac wedi cymeradwyo'r adroddiad drafft yn eu cyfarfod diwethaf yn amodol ar rai newidiadau drafftio, a oedd bellach wedi'u hymgorffori yn y papur. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi gofyn am gael gweld canllawiau drafft diwygiedig cyn cytuno'n derfynol y dylai'r adroddiad fynd i'r Cyfarfod Llawn. Roedd y rhain yn Atodiad B yr adroddiad drafft. Os oedd y Pwyllgor yn fodlon â hynny, y gobaith oedd y byddai'r Cyfarfod Llawn yn ystyried yr adroddiad ar ôl toriad yr haf.

9. Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

   i. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n gwrtais rhoi gwybod i'r mudiadau hynny a enwid yn y canllawiau'n fudiadau y mae'n rhaid eu cofnodi, eu bod wedi'u henwi.

   ii. Roedd o'r farn hefyd y dylid cynnwys aelodaeth o'r Royal Antediluvian Order of Buffaloes yn y canllawiau, yn enghraifft o fudiad y dylid ei gofnodi.

10. Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor fel petai'n fodlon â'r adroddiad drafft, yn amodol ar rai o'r pwyntiau a wnaed gan yr aelodau. Cytunwyd y gallai'r adroddiad bellach fynd at y Pwyllgor Busnes er mwyn trefnu dadl arno yn y sesiwn newydd.

*Camau i'w cymryd:* Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gwneud y newidiadau i'r adroddiad drafft cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes.

**Eitem 4: Datgan Buddiannau ar Lafar**

Papurau: STD-03-02(03)

11. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ystyried papur gan yr Ysgrifenyddiaeth ac ynddo gynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad o ran datgan buddiannau ar lafar yn ystod trafodion y Cynulliad.

12. Mynegwyd pryderon nad oedd gofynion y rheolau sefydlog ar hyn o bryd yn glir a'u bod yn aml yn arwain at lu o ddatganiadau diangen. Nid oedd hynny'n hwyluso gwaith y Cynulliad, fe allai danseilio ffydd pobl yn y drefn safonau ac fe allai hefyd andwyo urddas y Cynulliad. Roedd y papur yn cynnwys cynigion a allai, ym marn y swyddogion, helpu i egluro a symleiddio'r gofynion. Ar yr un pryd, byddai'n cynnal safonau uchel ac yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

13. Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

i. Nid oedd y ffordd yr oedd yr aelodau'n datgan buddiannau yn y Pwyllgorau Pwnc yn gyson. Byddai angen i Banel y Cadeiryddion drafod hyn maes o law.

ii. Roedd llawer o'r datganiadau yn y Cyfarfod Llawn yn ddiangen hyd yn oed o dan y rheolau presennol. Yn y bôn, byddai'r newidiadau arfaethedig yn peri mai dim ond ar fater lle na allai'r Aelod fwrw pleidlias ar hyn o bryd beth bynnag y byddai'n rhaid datgan buddiant.

iii. Ac eithrio am resymau rhethregol, ni fyddai angen i'r Aelodau ddatgan eu bod yn athrawon cofrestredig oni fyddai'r penderfyniad dan sylw'n rhoi iddynt fantais ariannol na fyddai ar gael fel y cyfryw i athrawon eraill.

iv. Roedd llywodraeth leol yn symud oddi wrth ddatgan buddiannau caeth ar sail ariannol a thuag at ddiffiniad mwy cyffredinol ar sail buddiannau personol a niweidiol. Fodd bynnag, roedd buddiant niweidiol yn debyg i'r buddiant "anuniongyrchol" y penderfynodd y Cynulliad gael gwared arno.

v. Roedd sefyllfa'r Aelodau a oedd hefyd yn gynrychiolwyr etholedig mewn llywodraeth leol yn peri cryn bryder. Er nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pwnc dan sylw, efallai y byddai'r Pwyllgor am ei ystyried yn y dyfodol.

vi. Ychydig o gwynion a gafwyd ers cychwyn y Cynulliad bod yr Aelodau wedi datgan neu gofrestru buddiannau'n anghywir. Er hynny, nid oedd hynny'n golygu nad oedd yn destun pryder.

14. Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr Aelodau fel petaent yn gwrthwynebu cynigion y papur, er iddynt eu trafod yn helaeth. Cytunwyd y gallai'r papur bellach fynd at y Pwyllgor Busnes i'w ystyried. Dywedodd y

Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at bob Aelod i esbonio'r gofynion newydd petai'r Cyfarfod Llawn yn cymeradwyo'r cynigion.

*Camau i'w cymryd:* Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn trefnu bod y papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried.

**Eitem 5: Adolygiad o'r Gweithdrefnau Safonau (Adolygiad Woodhouse)**

Papurau: - STD 03-02(06)

15. Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Woodhouse i'r cyfarfod. Eglurodd ei bod eisoes wedi cwrdd â'r rhan fwyaf o'r Aelodau, ond mai dyma'r tro cyntaf iddi ddod i'r Pwyllgor. Roedd copïau o ddrafft sylweddol cyntaf ei hadroddiad i'r Pwyllgor wedi'u dosbarthu, sef papur STD 03-02(06). Dyma gyfle iddi felly amlinellu'r egwyddorion oedd wrth wraidd ei hadroddiad drafft, a'r prif themâu a'r argymhellion. Byddai cyfle hefyd i aelodau'r pwyllgor ei holi.

16. Esboniodd yr Athro Woodhouse bod yr adroddiad drafft ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar argymhellion ac y byddai'n cyflwyno dadleuon ategol mwy manwl yn nes ymlaen (ac yn sgil sylwadau aelodau'r Pwyllgor). Roedd yn awyddus i gyflwyno argymhellion, a fyddai'n sylfaen i drefn safonau gref, a thrafod materion penodol y cafodd wybod eu bod yn destun pryder.

17. Dywedodd yr Athro Woodhouse fod 26 o argymhellion yn yr adroddiad drafft. Wrth lunio'r argymhellion dilynodd egwyddorion cadernid, cyfiawnder naturiol a thegwch. Roedd yr argymhellion pennaf yn ymwneud â:

    i. rôl y Llywydd;
    ii. rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol; a
    iii. rôl y Pwyllgor Safonau wrth wrando ar gwynion.

18. Ynghylch rôl y Llywydd, roedd yr Athro Woodhouse o'r farn y byddai'n well mynd â nifer o gyfrifoldebau presennol y Llywydd o ran y drefn safonau oddi arno. Clerc y Pwyllgor Safonau ddylai fod yn rhoi cyngor i'r Aelodau, a byddai'n ymgynghori â'r Pwyllgor ar faterion polisi. Dylid cyflwyno cwynion yn uniongyrchol i'r Ymgynghorydd Arbenigol a'r Ymgynghorydd hefyd ddylai fod yn llwyr gyfrifol am ymchwilio i gwynion.

19. Cynigiodd yr Athro Woodhouse amryw o ddewsiadau ar gyfer rôl yr Ymgynghorydd Annibynnol. Gellid cadw pethau fel ag y maent, rhoi mwy o rôl a statws i'r Ymgynghorydd neu benodi Comisiynydd Safonau yn lle'r Ymgynghorydd Arbenigol. Roedd yn ymwybodol y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn penodi Comisiynydd. Pa bynnag drywydd y dewisid, roedd o'r farn y byddai angen dod o hyd i ffordd o ddatrys achosion lle roedd anghytuno ynghylch y ffeithiau neu lle nad oedd Aelod yn cydweithredu.

20. O ran rôl y Pwyllgor Safonau yn y drefn gwyno, roedd yr Athro Woodhouse o'r farn bod angen rhyw fath o drefn apelio er mwyn sicrhau bod y system yn cadw at y Ddeddf Hawliau Dynol. Roedd dau opsiwn amlwg, sef hawl i apelio i Dribiwnlys (efallai o dan gadeiryddiaeth cyfreithiwr o'r tu allan) a hawl i apelio i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd a chynrychiolydd Panel y Cadeiryddion.

21. Yn olaf, soniodd yr Athro Woodhouse am nifer o argymhellion arwyddocaol eraill e.e. y dylai'r Ymgynghorydd Annibynnol fod yn llwyr gyfrifol am ymdrin â mân gwynion, y dylid cyhoeddi ei adroddiadau ac y dylid cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar bob adroddiad sy'n ymwneud â chwynion a gyfiawnhawyd.

22. Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

i. Diben cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar bob cwyn a gadarnhawyd fyddai tynnu sylw at waith y Pwyllgor yn hytrach na mynd â'r penderfyniad oddi wrth y Pwyllgor. Byddai'n rhoi cyfle hefyd i'r Aelodau eu hamddiffyn eu hunain. Er hynny, ni ddylai'r ddadl ymwneud â newid penderfyniad y Pwyllgor.

ii. Byddai modd apelio i'r Pwyllgor Safonau ar sail y ffeithiau, a'r Pwyllgor fyddai'n gyfrifol hefyd am argymell pa gosb y dylid ei harfer. Byddai unrhyw apêl derfynol i'r Cyfarfod Llawn yn seiliedig ar y gosb a argymhellwyd yn hytrach nag ar y ffeithiau. Roedd Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu system debyg.

iii. Roedd perygl y gallai cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn yn sgil gwrandawiad gan y Pwyllgor gael ei ystyried yn rhyw fath o erledigaeth ar yr Aelod. Roedd angen ystyried hefyd y gallai unrhyw Aelod, o dan y drefn bresennol, fynd at y cyfryngau a honni bod canfyddiadau'r Pwyllgor yn ddiffygiol. Nid oedd rhyw lawer y gallai'r pwyllgor ei wneud am hynny ar hyn o bryd.

iv. Roedd gan y Pwyllgor Safonau draddodiad o ymdrin â'r materion hyn yn anwleidyddol. Fe allai fod yn anodd sicrhau bod ystyriaethau'r Cyfarfod Llawn yr un mor amhleidiol. Er hynny, byddai'n briodol i'r Cyfarfod Llawn gymeradwyo unrhyw gosb a roddid i Aelod.

v. Ni fyddai'n hawdd meithrin "diwylliant safonau" (argymhelliad 13). Ond roedd yn bwysig bod yr holl bleidiau'n rhannu'r dyhead hwnnw. Fe allai trafod â rheolwyr y pleidiau a briffio Aelodau newydd helpu i feithrin consensws.

vi. Roedd aelodaeth y Panel Apelio'n bwysig. Byddai penodi cyfreithiwr o'r tu allan yn gadeirydd ar y panel apelio yn dangos yn glir bod y

panel yn ddiduedd.   Ond byddai penodi'r Llywydd yn gadeirydd yn cydnabod y realiti bod y Cynulliad yn gorff gwleidyddol.   Fe allai'r cynnig y dylid dewis trydydd aelod o Banel y Cadeiryddion beri anawsterau ymarferol.

vii. Roedd cyrff Seneddol eraill y DU naill ai wedi cyflwyno Comisiynwyr Safonau neu wrthi'n gwneud hynny.  Byddai hynny'n anos yn y Cynulliad gan y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i roi'r un statws i'r Comisiynydd ag mewn sefydliadau eraill.  Roedd dadl hefyd na ellid cyfiawnhau penodi Comisiynydd gan na chafwyd rhyw lawer o achosion arwyddocaol yng Nghymru hyd yma.  Fodd bynnag, roedd yr Athro Woodhouse o'r farn at ei gilydd mai dyma'r ffordd ymlaen er mwyn rhoi i faterion yn ymwneud â safonau eu statws haeddiannol yn y Cynulliad.

23. Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Woodhouse am ei gwaith ac am esbonio'i syniadau i'r Pwyllgor.  Diolchodd i aelodau'r Pwyllgor am eu hagwedd adeiladol at y mater hwn. Byddai'r Athro Woodhouse yn mynd ati i lunio drafft terfynol erbyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar ôl y toriad. Byddai cyfle arall bryd hynny i drafod yr adolygiad.

**Eitem 6: Trefniadau Cyn yr Etholiad**

Papur gan David Lambert - STD 03-02(04) - Wedi'i dynnu'n ôl

24. Gwahoddodd y Cadeirydd David Lambert i gyflwyno'r eitem.

25. Esboniodd David Lambert fod y papur wedi'i dynnu'n ôl am nad oedd y Comisiwn Etholiadol wedi llunio barn derfynol ar rai materion, e.e. yr hyn a fyddai'n cyfri'n gostau etholiadol.  Byddai Pwyllgor y Ty yn ystyried y mater eto yr wythnos ganlynol.  Byddai cyfle wedyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried y ddau fater a drafodid ym mhapur Mr Lambert, sef defnyddio papur a deunydd ysgrifennu a gwasanaethau llungopïo'r Cynulliad wrth baratoi at etholiadau'r flwyddyn nesaf a chynigion ar gyfer protocol cyn yr etholiad.

26. Nododd y Pwyllgor y sefyllfa.

**Eitem 7: Ymchwiliadau'r Pwyllgorau Pwnc - Buddiannau a allai wrthdaro**

Papur: STD 03-02(05)

27. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem drwy esbonio bod Panel y Cadeiryddion wedi lleisio peth pryder am y mater hwn ac wedi gofyn i'r Pwyllgor ei ystyried.

28. Ar ôl trafodaeth fer cytunwyd y dylai'r Ysgrifenyddiaeth lunio papur yn pennu'r prif bwyntiau trafod ac yn awgrymu'r ffordd ymlaen.

*Camau i'w cymryd:* Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn llunio papur i hwyluso'r trafodaethau mewn cyfarfod arall ar ôl i'r Pwyllgor ystyried adolygiad Woodhouse.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.**

*29.* Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod ar brynhawn dydd Iau y tymor nesaf. Byddai'r ddau gyfarfod nesaf ddydd Iau 31 Hydref a dydd Iau 28 Tachwedd.

30. Cytunwyd y dylai cyfarfodd gychwyn o hyn allan am 13:30 a cheisio dod i ben erbyn 17:00.

*Camau i'w cymryd:* Yr Ysgrifenyddiaeth.

31. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 11.50am.

*Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau*